



Llywodraeth Cymru
Crynodeb o ymatebion

Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2017

ISBN 978-1-78859-890-3

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

- Terminoleg
- Crynodeb
- Y Cefndir
- Hyd yr Ymgynghoriad
- Crynodeb o'r ymatebion gan gyflenwyr telathrebu
- Crynodeb o'r ymatebion gan ymatebwyr nad ydynt yn gyflenwyr telathrebu
- Y Camau Nesaf

Terminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Seilwaith band eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) yng Nghymru

Yr adeileddau ffisegol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym iawn o 30Mbps o leiaf.

Adolygiad o'r farchnad agored (OMR)

Cynhaliwyd adolygiad o'r farchnad i gael gwybod a oes gan y sector preifat gynlluniau i ddarparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf ac i ddynodi'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith band eang cymwys neu lle nad oes cynlluniau i ddatblygu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Adeiladau gwyn

Nid oes rhwydwaith NGA cymwys ar gael, neu nid oes cynlluniau i ddatbygu seilwaith o'r fath yn ystod y tair blynedd nesaf.

Adeiladau llwyd

Dim ond un rhwydwaith NGA cymwys sydd ar gael neu a fydd yn cael ei ddatblygu yn ystod y tair blynedd nesaf.

Adeiladau du

Mae o leiaf dau rwydwaith NGA cymwys ar gael gan weithredwyr gwahanol neu mae cynlluniau i ddatblygu dau rwydwaith yn ystod y tair blynedd nesaf.

Adeiladau y tu allan i'r cwmpas

Mae trefniadau eraill ar waith sy'n manteisio ar arian cyhoeddus ac mae'r rhain wedi'u heithrio o gynlluniau'r sector cyhoeddus yn y dyfodol.

Adeiladau y mae angen 'cadw golwg' arnynt

Mae cyflenwyr wedi dweud bod ganddynt rwydwaith NGA cymwys ar gyfer yr adeiladau hyn ar hyn o bryd, neu y bydd ganddynt rwydwaith o'r fath cyn pen tair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o uwchraddio'r rhwydwaith wedi'i gwblhau neu mae perygl na fydd y cyflenwr yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn i'r adeiladau dan sylw. Gan hynny, bydd angen cadw golwg parhaus ar yr adeiladau hyn. Os na fydd y cynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth a/neu os na fydd y rhwydwaith NGA yn gweithio yn yr adeiladau hyn, cânt eu labelu'n 'wyn' ac mae'n bosibl y cânt eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd.

Adeiladau wedi'u hidlo

Wrth bennu set data'r ymgynghoriad, dilëwyd categorïau o adeiladau a oedd yn annhebygol o fod yn gymwys i gael gwasanaeth band eang cyflym iawn - er enghraifft: tyrbinau gwynt, safleoedd bws a phontydd dŵr. Fodd bynnag, cafodd yr adeiladau hyn eu cynnwys ym map rhyngweithiol yr ymgynghoriad fel 'adeiladau wedi'u hidlo'.

Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)

Cyfeirnod unigryw ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain. Mae'n ffordd gynhwysfawr, gyflawn a chyson o ddynodi adeilad drwy gydol ei gylch oes - o'r adeg y cafwyd caniatâd cynllunio i'w godi i'r adeg y caiff ei ddymchwel.

Crynodeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf rhwng 13 Mehefin 2017 a 27 Gorffennaf 2017.

Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd cadarnhau'r adeiladau hynny yng Nghymru nad oes ganddynt seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf sy'n darparu gwasanaeth band eang o 30Mbps o leiaf, neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae'r crynodeb hwn o ymatebion yn amlinellu, ar lefel uchel, yr ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn crynhoi'r camau nesaf yn y broses.

Drwy'r broses ymgynghori, roedd modd i gwmnïau telathrebu, ac unrhyw randdeiliaid a oedd â diddordeb, roi gwybodaeth am eu cynlluniau band eang a chwmpas eu gwasanaethau. Roedd cyfle iddynt hefyd roi sylwadau ar y broses o fapio adeiladau a'u rhannu'n categorïau, sef adeiladu du, llwyd neu wyn, adeiladau y tu allan i'r cwmpas, adeiladau y mae angen cadw golwg arnynt, ac adeiladau wedi'u hidlo, a hynny ar sail y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad blaenorol o'r farchnad agored (OMR).

Bydd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses OMR a'r ymgynghoriad cyhoeddus dilynol yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu lle y dylid datblygu seilwaith band eang sy'n gallu cynnig gwasanaeth 30Mbps o leiaf fel y cam nesaf ym mhroses gaffael band eang NGA, os nad yw'r sector preifat yn bwriadu buddsoddi mewn cynlluniau o'r fath, a hynny er mwyn ehangu'r seilwaith i'r ganran fach o adeiladau gwyn sy'n weddill (adeiladau yn yr ardaloedd hynny lle nad oes darparwr NGA ar hyn o bryd a lle nad oes cynlluniau i ddatblygu seilwaith NGA yn ystod y tair blynedd nesaf).

Ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddiweddarau a diwygio'r ardal ymyrryd y cytunwyd arni (sy'n cynnwys adeiladau gwyn ac adeiladau y mae angen cadw golwg arnynt). Caiff y cynigion terfynol ar gyfer yr ardal ymyrryd eu cyflwyno i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol Broadband Delivery UK (BDUK) i'w cadarnhau a'u cymeradwyo cyn symud ymlaen i gaffael gwasanaethau.

Y cefndir

Mae prosiect Cyflymu Cymru yn ceisio ehangu seilwaith band eang NGA ledled Cymru a'i nod yw sicrhau bod gwasanaeth band eang â chyflymder lawrlwytho o 30Mbps o leiaf ar gael i 690,000 o adeiladau, a chyflymder lawrlwytho o dros 24 Mbps i adeiladau eraill. Y nod yw cwblhau'r prosiect erbyn mis Rhagfyr 2017.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad cyntaf o'r Farchnad Agored (OMR) a'i hymgyngoriad cyhoeddus cyntaf yn 2012. Yn dilyn yr OMR hwn a'r broses gaffael ddilynol, dyfarnwyd y contract i ddarparu band eang cyflym iawn ar gyfer ardal ymyrryd benodol i BT, a hynny ar 19 Gorffennaf 2012, gan ddefnyddio £205 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol.

Ar ôl cynnal OMR ac ymgynghoriad cyhoeddus arall rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, penderfynodd Llywodraeth Cymru ymestyn contract BT a chynnwys ardal ymyrryd benodol ychwanegol gan ddefnyddio £19.4 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol, a hynny ar 19 Gorffennaf 2014.

Bwriedir i'r swm o ryw £225 miliwn a ddyrannwyd hyd yma hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth band eang cyflym iawn i 690,000 o adeiladau yn yr ardal ymyrryd erbyn mis Rhagfyr 2017 ac, yn unol â thargedau Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru am weld cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn erbyn diwedd 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn awr yn bwriadu cynnal proses gaffael arall mewn perthynas â gweddill yr adeiladau ledled Cymru nad oes ganddynt fynediad i seilwaith band eang NGA. I hwyluso'r broses gaffael hon, cynhaliwyd OMR rhwng 5 Ionawr 2017 a 3 Chwefror 2017 i gadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus dilynol a gynhaliwyd rhwng 13 Mehefin 2017 a 27 Gorffennaf 2017 yn gyfle i gwmnïau telathrebu gadarnhau canlyniadau cwmpasog yr OMR a hefyd yn gyfle i randdeiliaid roi sylwadau a gwneud argymhellion ynghylch y broses gaffael arfaethedig, Cyflymu Cymru a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r ardal ymyrryd.

Manylion yr ymgynghoriad

Hyd yr ymgynghoriad:

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 13 Mehefin 2017 ac 13 Gorffennaf 2017 a chafwyd caniatâd i'w ymestyn ymhellach i 27 Gorffennaf 2017.

Ar 13 Gorffennaf 2017, cafwyd cyhoeddiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, ynghyd â datganiadau i'r wasg ar 13 a 26 Mehefin, i annog y cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad.

I sicrhau bod cynifer o gwmnïau â phosibl yn ymateb, anfonwyd dolenn at yr ymgynghoriad at bob cyflenwr a oedd wedi ymateb i'r OMR gwreiddiol gan barhau i gyfathrebu'n uniongyrchol â nhw drwy gydol yr ymgynghoriad.

Roedd Llywodraeth Cymru nid yn unig am annog cyflenwyr i ymateb i'r ymgynghoriad, roedd hefyd yn awyddus i glywed gan awdurdodau lleol. Roedd am wybod a oedd y data mapio'n gywir ac roedd hefyd am gael sylwadau ar y modd y gallai Llywodraeth Cymru fynd ati i gaffael gwasanaethau a thargedu adnoddau yn y ffordd orau bosibl.

Cysylltwyd yn uniongyrchol â holl awdurdodau lleol Cymru a'u hyrwyddwyd digidol i'w hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Gwefan: <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-yng-nghymru>

Lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus:

<http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/7333d028-45a9-46e6-80c9-55015df7a024?autostart=True#>

Lansio datganiad i'r wasg:

[technology/2017/170613-tell-us-about-your-broadband-needs/?skip=1&lang=cy](http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/7333d028-45a9-46e6-80c9-55015df7a024?autostart=True#)

Crynodeb o'r ymatebion gan gyflenwyr telathrebu

At ei gilydd cafodd Llywodraeth Cymru ymateb gan saith o gyflenwyr telathrebu a chafodd y rhain eu gwerthuso fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae'r canlyniadau a'r casgliadau llawn wedi'u hamlinellu yn Adroddiad terfynol Llywodraeth Cymru ar *Fynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - Adolygiad o'r Farchnad Agored a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus 2017*, dyddiedig 2017, yn amodol ar gymeradwyaeth BDUK.

Mae manylion y cyflenwyr telathrebu a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'u hamlinellu isod ynghyd â disgrifiad lefel uchel o'r modd y cafodd

eu data band eang ei drin wrth benderfynu at yr ardal ymyrryd derfynol ledled Cymru. Yn ogystal â'r crynodeb isod, mae trosolwg lefel uchel o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ymateb pob cyflenwr telathrebu i'w weld yn Nhabl 1. Mae hyn yn cynnwys y cyflenwyr telathrebu hynny a gyflwynodd ddata band eang yn ystod proses ymgynghori'r OMR gwreiddiol.

Mae pob ymateb a gaiff Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad cyhoeddus gan gyflenwyr telathrebu yn ddarostyngedig i gymalau cyfrinachedd ac, felly, ni chânt eu cyhoeddi'n llawn.

Tabl 1: Crynodeb o ymatebion cyflenwyr telathrebu a'r data band eang a gyflwynwyd

Cyflenwyr telathrebu	Cyfanswm yr adeiladau (UPRN)	Cyfanswm y codau post	A defnyddiwyd y data i ddiffinio'r Ardal Ymyrryd?	Categori NGA
Airband	-	507	✓	Adeiladau a gaiff eu gwasanaethu ac sy'n llwyd neu'n ddu
Bentley Walker	-	-	x	-
Broadway Partners	-	848	x	-
BT Openreach	1,588,493 ac roedd 114,416 ohonynt o dan 30Mbps	-	✓	Adeiladau a gaiff eu gwasanaethu ac sy'n llwyd neu'n ddu neu sydd i'w hadolygu
Dyfed IT Solutions	-	-	x	-
Fibrespeed	-	-	x	-
Gigaclear	3	-	✓	Adeiladau a gaiff eu gwasanaethu ac sy'n llwyd neu'n ddu
ITS Technology	-	5,477	✓	Adeiladau y mae angen cadw golwg arnynt
Net Support UK	-	-	x	-
Rural Technologies	-	22	✓	Adeiladau y mae angen cadw golwg arnynt
TFL-Group	247,722	-	x	-
Virgin Media	-	13,843 o godau post lle mae gwasanaeth ar gael 342 o godau post a gyhoeddwyd felly bydd gwasanaethau NGA ar gael cyn bo hir 306 o godau post a nodwyd yn y cynllun adeiladu (fodd bynnag,	✓	Adeiladau a gaiff eu gwasanaethu ac sy'n llwyd neu'n ddu neu y mae angen cadw golwg arnynt

		<p>roedd pob un heblaw 4 yn godau post a oedd wedi'u dyblygu)</p> <p>Yn dilyn adolygiad gan BDUK, nodwyd bod 13 cod post arall o fewn cwmpas VM</p>		
--	--	---	--	--

Darparwr: Broadway Partners

Daeth i law: 10 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Ni chafodd Llywodraeth Cymru ymateb swyddogol gan Broadband Partners yn ystod y broses OMR. Fodd bynnag, ymatebodd y cwmni i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy roi peth gwybodaeth am ei rwydwaith, gan gynnwys braslun o'i gwmpas honedig mewn perthynas â chodau post yn Sir Fynwy.

Casgliad: Gan nad oedd sylwadau Broadway Partners yn ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad, a bod rhai bylchau yn y dystiolaeth dechnegol a'r dystiolaeth fusnes, penderfynwyd na fyddai cwmpas ei wasanaethau band eang yn Sir Fynwy yn cael ei dynnu o'r ardal ymyrryd derfynol.

Anfonwyd llythyr drwy'r e-bost at Broadway Partners yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio asesiad Llywodraeth Cymru o rwydwaith a'i safbwynt terfynol ynghylch ei wasanaeth band eang a hynny ar 29 Medi 2017.

Darparwr: BT Openreach

Daeth i law: 9 Hydref 2017

Crynodeb: Drwy gydol y broses ymgynghori, anfonodd BT Openreach amrywiaeth o setiau data at Lywodraeth Cymru yn cynnwys manylion cwmpas gwasanaethau band eang Openreach ar hyd a lled Cymru. Bu'n rhaid gofyn i'r cwmni egluro setiau data'r OMR yn ystod y broses ymgynghori. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ymestyn y broses ymgynghori er mwyn gweithio gyda BT Openreach i fireinio'r data am gwmpas ei wasanaethau band eang i adeiladau unigol i sicrhau bod y data mor gywir â phosibl wrth ddiffinio'r ardal ymyrryd a dechrau unrhyw broses gaffael. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru y set ddata derfynol i nodi'r adeiladau a oedd wedi'u cynnwys yng nghynllun adeiladu Openreach (a chanddynt gyflymder o dros 30Mbps).

Casgliad: Ar sail set ddata ddiwygiedig BT Openreach, mae'r holl adeiladau y nodwyd yn ymateb Openreach eu bod eisoes yn cael gwasanaethau NGA (>30Mbps) neu fod cynlluniau i ddarparu'r gwasanaeth cyn pen y 3 blynedd nesaf, wedi'u tynnu o'r ardal ymyrryd ac maent wedi'u labelu'n llwyd neu'n ddu. Cafodd adeiladau yn ardal ymyrryd bresennol Cyflymu Cymru nad oedd gwasanaeth 30Mbps wedi'i gadarnhau, ond a oedd yn rhan o'r cynllun adeiladu (y gellir hawlio cyflymder o 30Mbps) hefyd eu tynnu o'r ardal ymyrryd a'u labelu'n adeiladau yr oedd angen cadw golwg arnynt. Os na fydd yr adeiladau hyn yn cael gwasanaeth band eang cyflym iawn drwy'r ymyrraeth bresennol, byddant yn cael eu mapio'n wyn ac mae'n bosibl y byddant wedyn yn dod yn rhan o'r ardal ymyrryd arfaethedig.

Anfonwyd llythyr drwy'r e-bost at Openreach yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio asesiad Llywodraeth Cymru o'i rwydwaith a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 24 Hydref 2017.

Darparwr: Dyfed IT Solutions

Daeth i law: 13 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Ni chafodd Llywodraeth Cymru ymateb swyddogol gan Dyfed IT Solutions yn ystod y broses OMR. Fodd bynnag, ymatebodd y cwmni i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy roi peth gwybodaeth am ei rwydwaith.

Casgliad: Gan nad oedd sylwadau Dyfed IT Solutions yn ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad, a bod rhai bylchau yn y dystiolaeth ddaearyddol a thechnegol a'r dystiolaeth fusnes, gan gynnwys manylion yr adeiladau a oedd yn gallu defnyddio rhwydwaith y cwmni, penderfynwyd na fyddai cwmpas ei wasanaethau band eang yn cael ei dynnu o'r ardal ymyrryd derfynol a, chan hynny, cafodd ei ddiystyru.

Anfonwyd llythyr drwy'r e-bost at Dyfed IT Solutions yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio asesiad Llywodraeth Cymru o'i rwydwaith a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 29 Medi 2017.

Darparwr: ITS Technology

Daeth i law: 4 Gorffennaf 2017 a chafwyd data diwygiedig gan y cwmni ar 26 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Aeth ITS Technology ati i adolygu'r ardal ymyrryd arfaethedig yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a nododd 70 o godau post ychwanegol (98 o adeiladau) a oedd wedi'u labelu'n wyn ond a oedd yn ymddangos o fewn ôl troed cwmpas ITS Technology. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd ITS Technology set ddata OMR ddiwygiedig ar 26 Gorffennaf 2017 gan gynnwys manylion y codau post dan sylw.

Casgliad: O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr OMR a'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae cwmpas cod post ITS Technology wedi'i dynnu o'r ardal ymyrryd. Fodd bynnag, o gofio bod cwmpas rhwydwaith ITS Technology yn sylweddol o hyd, a bod y gwaith o uwchraddio'r rhwydwaith yn parhau, mae'r adeiladau hyn wedi'u labelu'n adeiladau y mae angen 'cadw golwg' arnynt ar y mapiau NGA terfynol. Os na fydd cynlluniau masnachol ITS Technology yn dwyn ffrwyth, yna caiff yr adeiladau hyn eu labelu'n wyn ac mae'n bosibl y cânt eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd arfaethedig.

Anfonwyd llythyr drwy'r e-bost at ITS Technology's yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio asesiad Llywodraeth Cymru o rwydwaith y cwmni a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 29 Medi 2017.

Darparwr: Net Support UK

Daeth i law: 13 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Ni chafodd Llywodraeth Cymru ymateb swyddogol gan Net Support UK yn ystod y broses OMR. Fodd bynnag, ymatebodd y cwmni i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy roi peth gwybodaeth am ei rwydwaith ynghyd ag awgrymiadau am y broses gaffael arfaethedig.

Casgliad: Gan nad oedd sylwadau Net Support UK yn ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad, a bod rhai bylchau yn y dystiolaeth ddaearyddol a thechnegol a'r dystiolaeth fusnes, gan gynnwys manylion yr adeiladau a oedd wedi'u cynnwys o fewn ei rwydwaith, penderfynwyd na fyddai cwmpas ei wasanaethau band eang yn cael ei dynnu o'r ardal ymyrryd derfynol a, chan hynny, cafodd ei ddiystyru.

Darparwr: Rural Technologies

Daeth i law: 11 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Cafwyd rhywfaint o wybodaeth gan Rural Technologies i ategu ei gyflwyniad i'r OMR. Fodd bynnag, ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, anfonodd y cwmni dystiolaeth ychwanegol yn ymwneud â'i rwydwaith gan gynnwys manylion technegol a gwybodaeth am leoliad adeiladau a oedd wedi'u cynnwys o fewn ei rwydwaith.

Casgliad: O gofio'r dystiolaeth a gyflwynodd Rural Technologies yn ystod yr OMR a'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r codau post y dywedodd eu bod yn rhan o ôl troed ei gwmpas wedi'u tynnu o'r ardal ymyrryd derfynol. Fodd bynnag, o gofio bod bylchau yn y wybodaeth a gyflwynodd Rural Technologies i'r ymgynghoriad, yn ymwneud â chwmpas ei wasanaethau, gan gynnwys yr agweddau ar fusnes a thechnegol - mae'r codau post hyn wedi'u cynnwys gyda'r rhai y mae angen cadw golwg' arnynt y mapiau NGA. Felly, bydd y codau post yn yr ardaloedd hyn yn parhau i gael eu monitro a'u dilysu a bydd angen i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd ynghylch cynlluniau Rural Technologies, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i uwchraddio'r rhwydwaith. Os na fydd y cwmni yn llwyddo i wireddu ei gynlluniau i ddatblygu ei rwydwaith masnachol ac i uwchraddio, yna caiff y codau post hyn eu labelu'n wyn ac mae'n bosibl y cânt eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd arfaethedig.

Anfonwyd llythyr drwy'r e-bost at Rural Technologies yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio asesiad Llywodraeth Cymru o rwydwaith y cwmni a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 29 Medi 2017.

Darparwr: TFL Group

Daeth i law: 17 Gorffennaf 2017

Crynodeb: Yn ystod y broses OMR, cyflwynodd TFL rywfaint o wybodaeth am gynllun a gallu technegol ei rwydwaith i wasanaethu'r adeiladau o fewn ôl troed ei gwmpas ac i ddarparu gwasanaethau NGA. Ymatebodd TFL i'r ymgynghoriad cyhoeddus i fynegi barn am y modd y gallai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw arian cyhoeddus yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaeth i adeiladau. Rhoddodd TFL sylwadau hefyd ar y broses gaffael a'r lotiau. Ni chyflwynodd unrhyw wybodaeth na data newydd nac ychwanegol yn ymwneud â'i rwydwaith.

Casgliad: Mae angen rhagor o fanylion a sicrwydd technegol ynghylch rhwydwaith TFL a'r modd y byddai ei wasanaeth yn cwmpasu'r ardaloedd eang yng Nghymru y mae wedi'u hamlinellu. Oherwydd hynny, nid yw'r ardal yng nghwmpas gwasanaethau TFL wedi'u tynnu o'r ardal ymyrryd derfynol.

Anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr drwy'r e-bost at TFL yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio'r asesiad o'i rwydwaith a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 29 Medi 2017.

Darparwr: Virgin Media

Daeth i law: 27 Gorffennaf 2017 a chafwyd rhagor o wybodaeth ar 3 Awst 2017

Crynodeb: Aeth Virgin Media ati i adolygu'r ardal ymyrryd arfaethedig yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a nododd 34 o godau post a oedd wedi'u labelu'n 'wyn' ond a oedd yn ymddangos o fewn cwmpas presennol Virgin Media. Roedd y 34 cod post hyn yn ychwanegol i'r 3,809 cod post roedd Virgin Media eisoes wedi'u nodi yn ystod yr ymgynghoriad OMS. Hefyd, cyflwynodd Virgin Media ddata cod post diwygiedig yn ymwneud â'i fenter 'Supercharging Local Communities' ynghyd â data cod post diwygiedig ar ei gynllun adeiladu ar gyfer 2017. Cafwyd gwybodaeth am gwmpas cod post Virgin Media gan BDUK hefyd.

Casgliad: Bydd y 13,809 cod post gwreiddiol a gyflwynodd Virgin Media yn ystod yr OMR ynghyd â'r 34 ychwanegol a nodwyd yn ddiweddarach, y data cod post diwygiedig a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad mewn perthynas â 'Supercharging Local Communities', (342 cod post) a'r 13 cod post a nododd BDUK, eu tynnu o'r ardal ymyrryd derfynol a'u labelu'n llwyd neu'n ddu ar y mapiau NGA. Bydd y codau post diwygiedig yn ymwneud â'i gynllun adeiladu ar gyfer 2017 (sef 4 cod post), a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, hefyd yn cael eu tynnu o'r ardal ymyrryd derfynol ond bydd angen 'cadw golwg' arnynt o ystyried nad yw'r gwaith o ehangu'r rhwydwaith i'r codau post hyn wedi dechrau eto. Gan hynny, bydd y codau post hyn (a'r adeiladau cysylltiedig) y mae angen 'cadw golwg' arnynt yn parhau i gael eu monitro a'u dilysu a bydd angen i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd ynghylch cynlluniau Virgin Media. Os na fydd y cwmni yn gallu cwblhau ei gynlluniau i wella'i rwydwaith masnachol, yna caiff y codau post hyn eu mapio'n wyn ac mae'n bosibl y cânt eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd arfaethedig.

Anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr drwy'r e-bost at Virgin Media yn cadarnhau'r penderfyniad ac yn esbonio'r asesiad o rwydwaith y cwmni a'i safbwynt terfynol ynghylch cwmpas ei wasanaethau band eang, a hynny ar 29 Medi 2017.


Crynodeb o'r ymatebion gan ymatebwyr nad ydynt yn gyflenwyr telathrebu

Yn ogystal â'r 7 ymateb a gafwyd gan gyflenwyr telathrebu, daeth cyfanswm o 269 o ymatebion i law hefyd drwy'r e-bost gan ymatebwyr nad ydynt yn gyflenwyr telathrebu, gan gynnwys defnyddwyr, busnesau, grwpiau budd ac awdurdodau lleol.

Mae dadansoddiad o'r 269 e-bost a'r casgliadau wedi'u crynhoi yn Ffigur 1 ac maent wedi'u disgrifio'n fanylach isod:

- Cafwyd cyfanswm o 269 o ymatebion gan ymatebwyr nad ydynt yn gyflenwyr telathrebu. O'r rhain, daeth y gyfran fwyaf gan y cyhoedd (79%) a daeth 15% ohonynt gan fusnesau. At ei gilydd, cafodd Llywodraeth Cymru 6 ymateb gan grwpiau budd (2%), 6 ymateb arall gan awdurdodau lleol (2%) a 4 ymateb gan wleidyddion(1%).

Ffigur1: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus



O'r 269 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, daeth y nifer fwyaf o Sir y Fflint (26%), Powys (13%) a Sir Fynwy (11%).

Tabl 2: O ba ardaloedd y daeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad
Cyngor Sir y Fflint	71
Cyngor Sir Powys	35
Cyngor Sir Fynwy	29
Cyngor Sir Penfro	20
Cyngor Sir Ddinbych	15
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	15
Cyngor Gwynedd	11

Cyngor Sir Ceredigion	10
Cyngor Sir Caerfyrddin	8
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	6
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5
Cyngor Môn	3
Cyngor Dinas Casnewydd	2
Rhondda Cynon Taf County Borough Council	2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	1
Cyngor Dinas Caerdydd	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	1
Cyngor Bro Morgannwg	1
Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-fedw	1
<i>Dim cyfeiriad / grwpiau budd</i>	25

- O'r 257 o ymatebion a ddaeth i law gan y cyhoedd, busnesau a gwleidyddion, roedd y prif themâu cyffredinol yn cynnwys:
 - Dim band eang NGA ar gael mewn adeiladau penodol neu yn eu hardaloedd (81%)
 - Dim cysylltiad band eang NGA addas ac roedd hynny'n effeithio ar ansawdd eu bywyd a/neu ar eu busnes (18%)
 - Hynt rhaglen Cyflymu Cymru a/neu BT Openreach yn gyffredinol (13%)
 - Problemau ynghylch y cysylltiad band eang (fel cyflymder a/neu anghysondeb, galwadau VoIP yn methu etc) (12%)
 - Ymatebwyr yn credu bod eu heiddo wedi'u labelu'n anghywir ar y map NGA fel adeiladau gwyn neu lwyd (11%)
- O'r 12 ymateb a ddaeth i law gan awdurdodau lleol a grwpiau budd, roedd y prif themâu cyffredinol yn cynnwys:
 - Hynt rhaglen Cyflymu Cymru a/neu BT Openreach yn gyffredinol (16%)
 - Effaith patrymau cysylltedd NGA drwy'r rhanbarth (16%)
 - Argymhellion ar gyfer y broses gaffael arfaethedig yn yr ardal ymyrryd gan gynnwys strwythur y lotiau, modelau cyflenwi a'r hyn a fyddai'n cael ei gynnwys yn y contract (16%)
 - Pwyslais ar bwysigrwydd band eang NGA mewn cymunedau lleol, er mwyn hybu cyflogaeth a thwf economaidd (13%)
 - Nodwyd ambell eiddo a/neu godau post neu

- ddiwydiannau/busnesau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn yr ardal ymyrryd (13%)
 - Gwybodaeth yn ymwneud â labelu adeiladau ar y map NGA (10%)
- Tynnodd awdurdodau lleol sylw at y materion a ganlyn hefyd:
 - Pryder na fyddai'r targed presennol o 30Mbps yn ddigonol ar gyfer cymwysiadau yn y dyfodol fel gwasanaethau teledu cydraniad uchel iawn
 - Pryder y byddai Llywodraeth Cymru yn diystyru adeiladau roedd angen 'cadw golwg' arnynt ac na fyddent, felly, yn cael eu cynnwys ym mhrosiect presennol Cyflymu Cymru nac unrhyw brosiect gaffael y byddai Llywodraeth Cymru yn ei roi ar waith yn y dyfodol ar gyfer ardal(oedd) ymyrryd
 - Pryder bod rhai awdurdodau cyhoeddus yn oedi cyn cyflwyno gwasanaethau digidol yn eu hetholaethau oherwydd lefelau seilwaith band eang cyflym iawn.
- At hyn, codwyd y pwyntiau a ganlyn gan rai awdurdodau lleol:
 - Y posibilrwydd y byddai rhai adeiladau a oedd wedi manteisio ar gynllun talebau cynllun Allwedd Band Eang Cymru (ABC) yn cael eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd.
 - Y posibilrwydd y byddai rhai adeiladau yn Sir Fynwy a oedd gynt yn cael eu gwasanaethu gan AB Internet yn cael eu cynnwys yn yr ardal ymyrryd.
 - Argymhellion ynghylch y broses gaffael arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys awgrymu y dylid parhau i fonitro a chofnodi'r adeiladau a'r codau post roedd angen 'cadw golwg' arnynt ac amlygwyd hefyd rai ardaloedd busnes, parciau diwydiannol a diwydiannau penodol roedd awdurdodau lleol yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod cylch ariannu nesaf y rhaglen band eang cyflym iawn.
- O'r 269 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, nid oedd angen i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â 248 (92%) ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys 214 o ymatebion y gwelwyd, ar ôl i'r tîm OMR ymchwilio ymhellach, eu bod eisoes yn y categori NGA priodol (gwyn neu lwyd). Cafwyd cyfanswm o 19 (7%) o ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod eiddo wedi'i labelu'n anghywir ar y map NGA. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, newidiwyd y rhain a'u cynnwys yn y categori gwyn neu yn y categori o adeiladau roedd angen cadw golwg arnynt.

Rhestr o'r ymatebwyr nad ydynt yn gyflenwyr telathrebu

Ymatebodd yr Awdurdodau Lleol a ganlyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus:

Enw: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Daeth i law: 13 Gorffennaf 2017

Enw: Cyngor Sir Ddinbych

Daeth i law: 13 Gorffennaf 2017

Enw: Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-fedw

Daeth i law: 25 Gorffennaf 2017

Enw: Cyngor Sir Fynwy

Daeth i law: 27 Gorffennaf 2017

Enw: Cyngor Sir Powys

Daeth i law: 27 Gorffennaf 2017

Enw: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Daeth i law: 21 Gorffennaf 2017

Ymatebodd y grwpiau budd a ganlyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus :

Enw: CLA Cymru

Daeth i law: 10 Gorffennaf 2017

Enw: Undeb Gweithwyr Cyfathrebu Cymru

Daeth i law: 13 Gorffennaf 2017

Enw: Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Daeth i law: 27 Gorffennaf 2017

Enw: Bwrdd Cyngori Ardal Fenter Eryri

Daeth i law: 11 Gorffennaf 2017

Enw: Bargaen Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Daeth i law: 19 Gorffennaf 2017

Enw: Think Broadband

Daeth i law: 18 Mehefin 2017

Y camau nesaf

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus, ac ar ôl gwerthuso'r data band eang diwygiedig ac ychwanegol a gafwyd gan gyflenwyr telathrebu, a'i gynnwys ar y map NGA, cynhyrchwyd ardal ymyrryd a oedd yn cynnwys 95,242 o adeiladau gwyn (sy'n cyfateb i 15,830 cod post). Caiff y rhestr hon felly ei galw'n rhestr o 'Adeiladau Gwyn yn Ardal Ymyrrydd NGA 2017'.

Nodwyd bod angen 'cadw golwg' ar 61,466 o adeiladau eraill (sy'n cyfateb i 8,793 cod post) a byddai'r rhain yn parhau i gael eu monitro. Roedd posibilrwydd y byddent yn cael eu labelu'n wyn ar y map a'u cynnwys yn yr ardal ymyrryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r cynnig terfynol ar gyfer yr ardal ymyrryd ynghyd â'r rhestr o 'Adeiladau Gwyn yn Ardal Ymyrryd NGA 2017' i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK i'w cadarnhau'n ôl y Fframwaith Cymorth Gwladwriaethol ac i geisio cymeradwyaeth i'r ddogfen gaffael.

Yna, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal proses gaffael arall mewn perthynas â'r adeiladau hynny yn yr ardal ymyrryd lle nad oes seilwaith band eang NGA.

Mae mapiau'r ardal ymyrryd diwygiedig yn dangos manylion yr 'Adeiladau Gwyn NGA 2017' i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru o fewn 'Adeiladau Gwyn NGA - OMR' i ganiatáu i gwmnïau wneud cais i dargedu'r adeiladau hynny'n effeithlon.

<http://lle.gov.wales/map/ngaomr2017cy>

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus.